Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being

Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas

Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme



# Cefnogi pobl gyda'r sgiliau digidol i gael mynediad at offer cyfieithu digidol

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae'r adnoddau hyn wedi'u casglu ynghyd i'ch cefnogi ochr yn ochr â hyfforddiant Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant (CDC).

Rydyn ni wedi cynnwys tudalennau gwe yn y ddogfen hon sy'n cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i'ch helpu i gefnogi eraill. Rydyn ni wedi cynnwys y rhain fel dolenni yn y ddogfen hon. Cadwch lygad am y **symbol dolen pinc** y gallwch ei ddewis gyda'ch cyrchwr neu'ch bys i agor a gweld y ddolen.

Os ydych chi'n edrych ar adnodd sydd wedi'i brintio, naill ai teipiwch gyfeiriad y wefan i mewn i borwr gwe neu sganiwch y cod QR i agor y dudalen we.

# Sut i sganio cod QR

1. Agorwch eich ap cod QR ar eich dyfais. Ar lawer o ffonau clyfar modern, defnyddiwch eich camera.
2. Pwyntiwch y camera at y cod QR a gwnewch yn siŵr fod y cod i gyd yn y ffrâm.
3. Edrychwch ar eich sgrin i weld a oes dolen gwefan wedi ymddangos. Os oes, cyffyrddwch ag ef â'ch bys a bydd yn agor y wefan!



# Helpu pobl gydag offer cyfieithu digidol

Un o fanteision bod ar-lein yw’r twf mewn technoleg cyfieithu. Mae hyn yn golygu y gellir cyrchu llawer o wasanaethau ar-lein mewn gwahanol ieithoedd a gall sgyrsiau rhwng pobl gael eu cefnogi gan apiau sy'n cynnig cyfieithu ar y pryd.

Mae nifer o sgiliau digidol trosglwyddadwy yn gysylltiedig â defnyddio offer cyfieithu. Mae’n bwysig bod yn ymwybodol o’r rhain wrth gefnogi rhywun i ddefnyddio cyfieithydd digidol:

- Defnyddio dyfais ddigidol, fel ffôn neu liniadur.
- Lawrlwytho apiau a defnyddio'r siop app swyddogol ar gyfer dyfais.
- Defnyddio apiau.
- Llywio porwr gwe, yn enwedig estyniadau porwr gwe

## Darparu cyfleoedd i ddysgu

Mae’n bwysig inni ddod o hyd i gyfleoedd i ddysgu’r sgiliau digidol trosglwyddadwy sy’n gysylltiedig â defnyddio offer cyfieithu digidol. Efallai mai dim ond cymorth anffurfiol fydd ei angen ar y rhain, fel dangos ap cyfieithu i rywun. Ond efallai y byddai’n fuddiol ystyried pa ganllawiau sy’n bodoli ar-lein, neu beth allech chi ei greu, i arbed ailadrodd eich hun. Gall bod yn agored i offer cyfieithu wneud cyfleoedd ar-lein eraill yn bosibl i rai, felly byddai'n werth ystyried sut y gellir defnyddio offer cyfieithu mewn amrywiaeth o amgylchiadau ar-lein.

# Defnyddio dyfais

Sgiliau digidol sylfaenol yw'r sgiliau sydd eu hangen i ddefnyddio dyfais yn effeithiol, neu i ddeall cysyniadau digidol, fel ap neu borwr rhyngrwyd, a sut i ryngweithio â nhw. Defnyddiwch nodweddion rhyngweithiol fel gemau i wneud y profiad yn fwy positif.

# Llywio porwr gwe

Mae porwr gwe yn caniatáu ichi gael mynediad i wahanol wefannau ar eich dyfais. Bydd gan y rhan fwyaf o dyfaisiau eu porwr gwe eu hunain, yn dibynnu ar eu system weithredu.

**SGANIWCH FI**

**www.wales.learnmyway.com**

Mae offer defnyddiol cyffredin, fel llyfrnodi, defnyddio pori preifat neu arbed cyfrineiriau ar eich porwr gwe personol yn rhan o lawer o offer porwr safonol sy'n ddefnyddiol i'w dysgu. Mae llwyfannau fel Learn My Way, neu arddangosiadau anffurfiol wrth helpu rhywun, yn gyfleoedd gwych i ddysgu'r sgiliau achlysurol hyn.

# Lawrlwytho apiau

Mae apiau ar gael ar nifer o ddyfeisiau, ac maen nhw'n caniatáu i ni gael mynediad at wasanaeth ar-lein neu siopa'n uniongyrchol. Defnyddiwch yr ap swyddogol sydd wedi'i lawrlwytho o siop app eich dyfais yn unig.

# Offer cyfieithu

Mae gan **borwyr gwe** poblogaidd ategion cyfieithu y gallwch eu defnyddio i gyfieithu testun gwefan yn awtomatig i'ch dewis iaith.

**Cymorth Google Chrome**

SGANIWCH FI

**https://bit.ly/4hmgoGm**

**Cymorth Microsoft Edge**

SGANIWCH FI

**https://bit.ly/4jkW75t**

Mae'r offer cyfieithu hyn wedi'u hymgorffori yn Chrome neu Edge, felly gallwch ddechrau eu defnyddio yn syth bin!

Mae **apiau cyfieithu** hefyd yn opsiynau poblogaidd ar gyfer nifer o ddyfeisiau llaw, fel ffôn clyfar. Gallant hwyluso sgyrsiau, a hyd yn oed gyfieithu testun ar ddogfennau pwysig gan ddefnyddio camera eich dyfais.

Ar siop app eich dyfais, chwiliwch am apiau cyfieithu poblogaidd fel:


- Cyfieithydd Microsoft
- Google Cyfieithu.

# Cyrchu cyfieithiad Google Chrome

Mae'n werth nodi y gall dyfeisiau gwahanol weithredu gwahanol fersiynau o Google Chrome, ac felly dim ond fel camau cyffredinol y gellir cymryd ein harweiniad. Defnyddiwch y canllawiau swyddogol sydd wedi'u cysylltu yn y ddogfen hon am ragor o wybodaeth.


I gael mynediad i'r teclyn cyfieithu adeiledig ar Google Chrome, yn gyntaf, bydd angen i chi ddewis y tri dot i agor eich dewislen opsiynau ar eich porwr gwe.







Bydd dewis y tri dot yn agor y ddewislen opsiynau. Tuag at waelod y ddewislen, fe welwch opsiwn **Translate**. Dewiswch hwn i barhau.

Trwy ddewis **Translate**, byddwch yn dod â dewislen cyfieithu i fyny, sy'n eich galluogi i ddewis gosodiadau a mwy o ieithoedd.





Dibynnu ar y ddyfais rydych yn ei defnyddio, fe welwch opsiynau ychydig yn wahanol ar gyfer newid rhwng ieithoedd, ond mae ganddyn nhw i gyd yr un swyddogaeth.

# Cyrchu cyfieithiad Microsoft Edge


Mae'n werth nodi y gall dyfeisiau gwahanol weithredu gwahanol fersiynau o Google Chrome, ac felly dim ond fel camau cyffredinol y gellir cymryd ein harweiniad. Defnyddiwch y canllawiau swyddogol sydd wedi'u cysylltu yn y ddogfen hon am ragor o wybodaeth.

I gael mynediad i'r teclyn cyfieithu adeiledig ar Microsoft Edge, yn gyntaf, bydd angen i chi ddewis botwm gosodiadau'r porwr gwe, sy'n aml yn defnyddio symbol sy'n cynnwys tair llinell.







Yn **Settings**, edrychwch am y botwm cyfieithu a dewiswch ef i barhau. Sylwch efallai y bydd gennych fwy nag un dudalen i lywio drwyddi.




Bydd dewislen newydd yn ymddangos ar frig y dudalen we. Gallwch ddewis eich dewis iaith trwy ddewis y botwm **Show Original**.




Yn dibynnu ar y ddyfais rydych chi'n ei defnyddio, fe welwch opsiynau ychydig yn wahanol ar gyfer newid rhwng ieithoedd, ond mae ganddyn nhw i gyd yr un swyddogaeth.

# Defnyddio rhwydweithiau cymorth presennol

Er y gall offer cyfieithu digidol fod yn adnodd hynod ddefnyddiol, nid ydynt yn sicr o fod yn gywir. Nid ydynt chwaith yn addas i gymryd lle cyfieithydd.

Mae ein canllaw yn darparu rhai mannau cychwyn defnyddiol ar gyfer siarad am sgiliau digidol. Mae hyd yn oed dim ond ysbrydoli rhywun i gymryd diddordeb mewn defnyddio dyfeisiau digidol yn amlach yn ddechrau gwych. Mae llawer o rwydweithiau cymorth ar gael y gallwch eu defnyddio i ymgorffori cynhwysiant digidol yn y tymor hwy. Gyda'n gilydd, gallwn wneud newid cynaliadwy a chynyddu cynhwysiant digidol.

# Beth nesaf?

I ddysgu mwy am ein cefnogaeth, cysylltwch â ni:


digitalcommunities.gov.wales/cy/cysylltu-a-ni/

0300 111 5050

Hefyd ar:



Mae Cymunedau Digidol Cymru: Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant yn rhaglen gan Lywodraeth Cymru a ddarperir gan Cwmpas. Mae Cwmpas, a elwid gynt yn Ganolfan Cydweithredol Cymru, yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.